## Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (107)

## Pleidleisiau a Thrafodion dydd Mawrth, 11 Ionawr 2005

## Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm

## 2.00pm

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Gofynnwyd y 15 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiynau 2, 5, 9, 11, 12 ac 13 yn ôl. Cafodd cwestiynau 4 ac 8 eu grwpio i'w hateb gyda'i gilydd

**.....................................**

## 2.43pm

**Cwestiwn Brys**
**Peter Law (Blaenau Gwent):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau y mae'n eu cymryd mewn ymateb i'r cyhoeddiad y bydd 220 o bobl yn colli'u swyddi yn Yuasa Batteries yng Nglynebwy ac y bydd tua 100 o bobl eraill yn colli eu swyddi yn Merton Packaging, Llanhiledd, Blaenau Gwent.

**..................................**

## 2.54pm

**Datganiad gan y Prif Weinidog : Tswnami**

**.....................................**

## 3.40pm

**Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar y Llifogydd yng Ngogledd Cymru**

**.....................................**

## 3.59pm

**Datganiad gan y Prif Weinidog yn hysbysu'r Cynulliad am newidiadau i'r Cabinet**

....................................

## 4.29pm

**Datganiad Busnes**

....................................

## 4.40pm

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25**
**Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2005**

*NDM2228 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Rhagfyr 2004, mewn perthynas â'r Rheoliadau drafft, Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Tachwedd 2004; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Tachwedd 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Derbyniwyd y cynnig**

....................................

## 4.40pm

**Cynnig i ddirprwyo’r swyddogaethau yn Neddf Argyfyngau Sifil 2004, neu o dan y ddeddf honno, i Brif Weinidog Cymru**

*NDM2227 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithredu o dan adran 62(1) (b) o Ddeddf Llywodraeth

Cymru, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol sydd yn Neddf Argyfyngau Sifil 2004 (c.36) ac o dani, i Brif Weinidog y Cynulliad, heblaw am y rhai hynny na ellir eu dirprwyo yn gyfreithiol.

Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

Nid oes dim yn y cynnig hwn sy'n effeithio ar y modd y caiff Rheol Sefydlog 26 ei gweithredu.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei gwneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog priodol yn y Cynulliad ac i staff, fel y bo hynny'n briodol.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd y cynnig**

**.....................................**

## 4.52pm

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.27(iv) Orchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2005**

***NDM2229 Karen Sinclair (De Clwyd)***

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2005 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Rhagfyr 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM2230 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2005 yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Rhagfyr 2004.

*Sylwer: Nid oes Adroddiad wedi'i osod gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, gan fod Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion gweithdrefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).*

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**......................................**

## 4.54pm

**Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru**

*NDM2226 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)*

Cynnig bod Llywodraeth Cynulliad Cymru:

Yn gresynu at fethiant y Llywodraeth i ymyrryd yn yr argyfwng tai.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu'r cyfan ac yn ei le rhoi:

1. Yn cydnabod bod cyflenwad digonol o dai fforddiadwy yn hanfodol mewn cymdeithas wâr, ac yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i:
a. rhoi hawl i awdurdodau lleol beidio â gweithredu'r cynllun Hawl i Brynu;
b. sefydlu Uned Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol gyda'i chyllideb ei hun;
c. rhoi hawl i awdurdodau lleol fynnu bod cartrefi fforddiadwy o fewn pob datblygiad newydd o dros 10 o dai.

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ddatblygu Asiantaeth Fenthyca ar gyfer Gwella Cartrefi Cymru i helpu pobl oedrannus ac eraill sy'n berchen ar dai i ryddhau'r ecwiti yn eu cartrefi er mwyn eu gwella.

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i fuddsoddi mwy mewn tai cymdeithasol newydd mewn ardaloedd lle bo'r galw'n uchel.

**Gwelliant 4 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Er yn cydnabod bod y Cynllun Cymorth Prynu wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ddarparu tai fforddiadwy, gwnaed hynny trwy ddefnyddio'r arian a fyddai wedi bod ar gael i adeiladu tai newydd i'w rhentu. O ganlyniad, mae'r Cynulliad hwn yn galw ar y Llywodraeth i sefydlu llinell Cymorth Prynu ar wahân yn y gyllideb sy'n ychwanegol i'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol.

**Gwelliant 5 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod mai ar y lefel leol yr eir i'r afael â digartrefedd orau ac yn galw am strategaethau lleol mwy effeithiol i helpu'r digartref gyda buddsoddiad Llywodraeth y Cynulliad.

**Gwelliant 6 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am gyfyngiadau ar yr hawl i brynu mewn ardaloedd lle bo'r galw'n uchel.

**Gwelliant 7 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod yr holl awdurdodau lleol yn cynnal arolygon o anghenion tai lleol ac yn cydnabod yr angen i Awdurdodau Cynllunio gynnal arolygon ar lefel y gymuned er mwyn cadarnhau anghenion tai lleol.

**Gwelliant 8 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i annog a hyrwyddo ymdrechion i ffurfio Ymddiriedolaethau Tai Cymunedol

**Gwelliant 9 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gefnogi ac annog awdurdodau cynllunio lleol i annog mwy o hyblygrwydd er mwyn datblygu polisïau cynllunio tai fforddiadwy gwahanol. Yn arbennig, mae'n galw am ddefnyddio polisïau eithrio i ddarparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig.

**Gwelliant 10 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn condemnio'r toriad yng nghyllideb Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Grantiau Gwella i'r Anabl.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 16; Ymatal 0; Yn erbyn 38; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O blaid 16; Ymatal 8; Yn erbyn 30; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O blaid 14; Ymatal 10; Yn erbyn 30; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O blaid 13; Ymatal 10; Yn erbyn 30; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O blaid 13; Ymatal 0; Yn erbyn 40; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O blaid 6; Ymatal 0; Yn erbyn 47; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 6**

**Gwelliant 7**
O blaid 23; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 7**

**Gwelliant 8**
O blaid 13; Ymatal 10; Yn erbyn 30; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 8**

**Gwelliant 9**
O blaid 23; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 9**

**Gwelliant 10**
O blaid 23; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 10**

**Y cynnig**
O blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd y cynnig**

**......................................**

**TYNNWYD YN OL**

**Dadl ar Gynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2**

*NDM2231 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu'r camau yng Nghynllun diwygiedig Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth Cymru 2005 i wella sgiliau ac i helpu mwy o bobl ddod o hyd i gyflogaeth gynaliadwy.

*Cafodd copïau o Gynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth Cymru 2005 eu hanfon at Aelodau'r Cynulliad drwy'r e-bost ar 4 Ionawr 2005.*

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt bwled cyntaf newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yr angen am wella’r lefelau sgiliau yng Nghymru a mynd i’r afael â lefel isel iawn CMC y pen yng Nghymru o gymharu â Lloegr.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Yn llinell 1 dileu 'Yn croesawu'r' a rhoi 'Yn nodi'r yn ei le'.

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol rhoi parch cydradd i gymwysterau galwedigaethol ac academaidd er mwyn cwrdd ag anghenion Cymru.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cefnogi pobl ifanc sy'n parhau i dderbyn addysg ac yn cyfarwyddo Llywodraeth Lafur y Cynulliad i greu Grant Arbennig, a fyddai'n cael ei weinyddu yn yr un ffordd â'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg, i ymestyn yr hawl i ymgeisio am gymorth ariannol i'r rheiny sy'n cael eu pen-blwydd yn ddeunaw oed yn ystod blwyddyn academaidd 2004/05.

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn condemnio Llywodraeth Lafur y Cynulliad am gyflwyno cynllun gweithredu nad yw'n cydymffurfio â'i pholisi iaith ei hun ac sy'n methu â chwrdd â'r ymrwymiad i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael statws cyfartal ar draws pob sector.

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod y gyllideb sydd wedi'i dyrannu ar gyfer datblygu cymorth Sgiliau Sylfaenol yn annigonol ac yn cyfarwyddo Llywodraeth Lafur y Cynulliad i adolygu'r cyllid hwnnw fel mater brys.

**Gwelliant 7 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i ymrwymo i system gyllido ar gyfer addysg ôl-16 na fydd yn rhwystro myfyrwyr am resymau ariannol ac yn cadarnhau nad yw system sy'n cynnwys Ffioedd

Ychwanegol yn dderbyniol yng Nghymru.

**.....................................**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.40pm**

**…………………………………………..**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 12 Ionawr 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a Osodwyd ar 06 Ionawr 2005**

- Cyngor Celfyddydau Cymru Adroddiad Blynyddol 2003/04 - LD3383 *Dim fersiwn electronig ar gael*

**Dogfennau a Osodwyd ar 05 Ionawr 2005**

- Ail Gynllun Cydraddoldeb Hiliol Cynulliad Cenedlaethol Cymru - LD3382

**Dogfennau a Osodwyd ar 04 Ionawr 2005**

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, Cronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd 2003-2004 - LD3381 *Dim fersiwn electronig ar gael*

**Dogfennau a Osodwyd ar 22 Rhagfyr 2004**

- Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2005 - LD3375
- The Welsh Local Flood Defence Scheme 1996 (Revocation) Order 2005 - LD3376 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*
- Bwrdd Croeso Cymru - Adroddiad Blynyddol 2003-2004 - LD3379

**Dogfennau a Osodwyd ar 21 Rhagfyr 2004**

- The National Assembly for Wales Resource Accounts 2003-2004 - LD3380 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

**Dogfennau a Osodwyd ar 17 Rhagfyr 2004**

- Local Government Finance Report (No 1) for the financial year 2005-06 - LD3378 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

**Dogfennau a Osodwyd ar 16 Rhagfyr 2004**

- Welsh Assembly Government's response to the report of the National Assembly Audit Committee's report on the General Report of the Auditor General for Wales 2004: Committee Report (2) 08-04 - LD3377 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

**Dogfennau a Osodwyd ar 15 Rhagfyr 2004**

- Ystadegau Ariannol Llywodraeth Leol Cymru 2004 - LD3374

**Dogfennau a Osodwyd ar 13 Rhagfyr 2004**

- CADU - Accounts for the year ended 31 March 2004 - LD3373 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

**Dogfennau a Osodwyd ar 10 Rhagfyr 2004**

- Bwrdd Henebion Cymru Adroddiad Blynyddol 2003-04 Gofalu am Eiddo Sydd o Dan Ofal y Wladwriaeth a'I Gyflwyno: Materion Iechyd a Diogelwch ac Anabledd - LD3372

**Dogfennau a Osodwyd ar 09 Rhagfyr 2004**

- Gorchymyn Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) 2005 - LD3369
- The Plant Health (Amendment) (Wales) Order 2005 - Regulatory Appraisal - LD3370 Dim fersiwn Gymraeg ar Gael
- Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 1) 2005 - LD3371